# Deddf Cymwysterau Cymru 2015

**2015 dccc 5**

## RHAN 7

PWERAU GORFODI CYMWYSTERAU CYMRU

### 44 Mynd i mewn i fangre a'i harolygu

(1) Caiff person awdurdodedig wneud cais i ynad heddwch am orchymyn o dan yr adran hon mewn cysylltiad â mangre a feddiannir gan gorff cydnabyddedig.

(2) Dim ond os yw'r ynad heddwch wedi ei fodloni bod y gofynion yn is-adrannau (3) i (5) wedi eu bodloni y caiff wneud gorchymyn o dan yr adran hon.

(3) Y gofyniad cyntaf yw bod sail resymol dros gredu bod y corff wedi methu â chydymffurfio—

(a) ag amod y mae ei gydnabyddiaeth yn ddarostyngedig iddo, neu

(b) ag amod y mae cymeradwyaeth o dan Ran 4 o ffurf ar gymhwyster a ddyfernir ganddo yn ddarostyngedig iddo.

(4) Yr ail ofyniad yw—

(a) bod cais i fynd i mewn i fangre wedi ei wrthod, neu'n debygol o gael ei wrthod, neu

(b) y byddai gofyn am gael mynd i mewn yn debygol o danseilio'r diben o gael mynd i mewn.

(5) Y trydydd gofyniad yw bod angen mynd i mewn i'r fangre er mwyn canfod a fu achos o dorri'r amod y mae'r gofyniad yn is-adran (3) wedi ei fodloni drwy gyfeirio ato.

(6) Pan fo gorchymyn o dan yr adran hon mewn grym, caiff person awdurdodedig ac unrhyw gwnstabl sy'n mynd gyda'r person awdurdodedig yn unol â'r gorchymyn, at ddiben canfod a fu achos o dorri amod y cyfeirir ato yn is-adran (3)—

(a) mynd i mewn i'r fangre a bennir yn y gorchymyn;

(b) arolygu a chopïo cofnodion a dogfennau y deuir o hyd iddynt yn y fangre neu eu symud o'r fangre;

**Statws** *This is the original version (as it was originally enacted).*

(c) ei gwneud yn ofynnol cael mynediad at unrhyw gyfrifiadur neu ddyfais electronig arall y deuir o hyd iddi yn y fangre, ac unrhyw gyfarpar neu ddeunydd cysylltiedig y deuir o hyd iddo yn y fangre, sy'n cael eu defnyddio neu wedi eu defnyddio mewn cysylltiad â chofnodion neu ddogfennau eraill, eu harolygu a gwirio eu gweithrediad;

(d) ei gwneud yn ofynnol—

(i) i'r person sy'n defnyddio neu sydd wedi bod yn defnyddio'r ddyfais electronig neu y mae'r ddyfais electronig yn cael ei defnyddio felly neu wedi ei defnyddio felly ar ei ran, neu

(ii) i unrhyw berson sy'n gyfrifol am y ddyfais, y cyfarpar neu'r deunydd, neu sydd fel arall yn ymwneud â gweithrediad y ddyfais, y cyfarpar neu'r deunydd,

roi unrhyw gymorth i'r person awdurdodedig sy'n ofynnol yn rhesymol gan y person awdurdodedig (gan gynnwys, ymhlith pethau eraill, rhoi gwybodaeth ar gael i'w harolygu neu i'w chopïo ar ffurf ddarllenadwy).

(7) Rhaid i orchymyn o dan yr adran hon bennu—

(a) y fangre y mae'n ymwneud â hi;

(b) y cyfnod y mae'r gorchymyn mewn grym ar ei gyfer.

(8) Caniateir i orchymyn o dan yr adran hon—

(a) caniatáu neu ei gwneud yn ofynnol i gwnstabl fynd gyda'r person awdurdodedig;

(b) cyfyngu ar yr amser y caniateir i'r pŵer mynd i mewn a roddir gan y gorchymyn gael ei arfer;

(c) ei gwneud yn ofynnol i hysbysiad am y gorchymyn gael ei roi i'r corff cydnabyddedig o dan sylw.

(9) Caniateir (os oes angen) i gwnstabl sy'n mynd gyda'r person awdurdodedig yn unol â'r gorchymyn ddefnyddio grym rhesymol er mwyn galluogi arfer y pwerau a roddir gan y gorchymyn.

(10) Mae cyfeiriadau yn yr adran hon at berson awdurdodedig yn gyfeiriadau at aelod o staff Cymwysterau Cymru sydd wedi ei awdurdodi (yn gyffredinol neu'n benodol) gan Gymwysterau Cymru at ddibenion yr adran hon.